

Learning Records Service

www.learningrecordsservice.org.uk

Hysbysiad Preifatrwydd – testun safonol i ddarparwyr, ysgolion, colegau a sefydliadau hvfforddi

Trosolwg

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn rhoi fersiwn testun a argymhellir o'r Testun Hysbysiad Preifatrwydd: Testun Byr a Thestun Estynedig. Dylid cynnwys y geiriau canlynol yn Hysbysiadau Preifatrwydd y Darparwyr Dysgu / Ymgynghorwyr Dysgu / Cyrff Dyfarnu eu hunain os oes gan y sefydliad berthynas uniongyrchol â'r Dysgwr.

Yr ydym yn darparu'r testun safonedig hwn mewn fformat Word i'ch galluogi i'w gopïo a'i ludo i'ch systemau gweinyddu, eich ffurflenni a'ch dogfennau eich hun, i wneud pethau'n symlach a haws i chi.

Hysbysiad Preifatrwydd: disgyblion, myfyrwyr, dysgwyr a hyfforddeion

---

1) Testun Byr ar gyfer Hysbysiad Preifatrwydd

Dylai geiriad sydd i'w ymgorffori mewn ffurflenni cais a chofrestru darparwyr gynnwys y geiriau hyn os yw gofod yn brin …..

Defnyddir yr wybodaeth a roddir gennych gan y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau, i roi Rhif Dysgu Unigryw (ULN) i chi, ac i greu'ch Cofnod Dysgu Personol. Mae manylion pellach ar y modd y prosesir ac y rhennir eich gwybodaeth ar gael yn http://bit.ly/bmHWNp

---

2) Testun Hysbysiad Preifatrwydd Estynedig

Esboniad byr a syml o beth mae hyn yn ei olygu i chi…….

- Bydd yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau yn defnyddio'r wybodaeth a roddir gennych i roi Rhif Dysgu Unigol (ULN) i chi.
- Defnyddir y rhif hwn i greu'r Cofnod Dysgu Personol.
- Bydd eich Cofnod Dysgu Personol yn cynnwys gwybodaeth am eich cymwysterau, dyfarniadau a digwyddiadau hyfforddi, a chyflawniadau dysgu sy'n rhan o'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau.
- Mae'n golygu hefyd y gall gwybodaeth am eich dysgu gael ei rhannu ag eraill sy'n gyfrifol am eich addysg a hyfforddiant.
- Am ragor o fanylion ar sut y bydd gwybodaeth a roddwyd gennych yn cael ei defnyddio, gofynnwch i'ch ysgol, eich ymgynghorydd gyrfaoedd, hyfforddiant neu addysg neu ewch i wefan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu: http://bit.ly/bmHWNp

- Os nad ydych yn 16 oed eto, efallai yr hoffech drafod yr esboniad o'r hysbysiad preifatrwydd hwn â'ch rhiant neu warcheidwad cyfreithiol yn gyntaf.
- Y Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau yw cynrychiolydd yr **Asiantaeth Ariannu Sgiliau** sy'n ariannu rhai o'r cymwysterau a'r hyfforddiant y gallwch eu hennill drwy eich coleg, darparwr hyfforddiant neu ddysgu. Mae cyllid yng Nghymru'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Bydd eich Cofnod Dysgu Personol yn cynnwys gwybodaeth am eich cymwysterau, dyfarniadau a digwyddiadau hyfforddi ynghyd â chyflawniadau dysgu y gallwch eu casglu drwy gydol eich oes fel dysgwr – ar bob lefel a hefyd pan fyddwch yn gweithio ac yn dysgu.
- Bydd yr wybodaeth a roddwch i ni'n cael ei throsglwyddo i'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu er mwyn dyrannu ULN ar eich cyfer. Mae hwn yn gyfeirnod deg digid ac mae'n unigryw i chi. Cadwch y rhif hwn mewn man diogel gan y bydd ei angen arnoch yn ystod eich oes, yn union fel eich rhif Yswiriant Gwladol.
- Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i greu'ch Cofnod Dysgu Personol. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys gwybodaeth am eich cymwysterau, dyfarniadau, cyflawniadau dysgu a 'chredydau' a fydd yn cael eu cadw'n hwylus mewn un lle ar-lein i'ch galluogi chi a'ch ymgynghorwyr i gyfeirio ato, gyda'ch caniatâd. Bydd eich cofnod yn eich helpu i gadarnhau i eraill yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu, yn lle a phryd. Bydd hefyd yn eich helpu i ganfod meysydd eraill o ddysgu i'ch helpu i symud ymlaen tuag at gyflawni'ch nodau eich hun. Cofiwch mai **chi fydd bob amser yn rheoli** pwy sy'n cael mynediad at eich Cofnod Dysgu Personol ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. Dim ond chi all roi caniatâd iddynt i weld yr wybodaeth hon.

- Bydd eich ULN yn cael ei ddefnyddio hefyd i gasglu a rhannu gwybodaeth ymhlith sefydliadau sy'n ymwneud ag addysg. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys cymwysterau, dyfarniadau, tystysgrifau, hyfforddiant a dysgu yn y gweithle (gelwir hwn yn ddata cyflawniad a chyfranogiad hefyd). Bydd eich Cofnod Dysgu Personol yn gofnod gydol oes o'ch cyfranogiad, eich dysgu a'ch cyflawniad mewn addysg. Bydd eich Cofnod Dysgu Personol ar gael i chi, ac i sefydliadau sy'n gysylltiedig â'ch addysg ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n cael caniatâd gennych i weld eich Cofnod Dysgu Personol i ddibenion cynghori ac i roi arweiniad. Gallai hyn gynnwys Gyrfa Cymru, ymgynghorwyr gyrfa, staff cofrestru a chyrsiau colegau a chyflogwyr yn y dyfodol os ydych am roi caniatâd iddynt i'w weld.

- Mae'ch Cofnod Dysgu Personol yn eich galluogi chi a sefydliadau eraill i wirio'r 'credydau' dysgu yr ydych wedi eu cyflawni. Un o'r prif fuddiannau tymor hir yw y bydd yn eich helpu i weld i ba raddau yr ydych yn dangos cynnydd tuag at gyflawni eich deilliannau dysgu, eich hyfforddiant neu'ch cymwysterau'ch hun, a bydd yn eich helpu i ddod o hyd i ddulliau gwahanol o ymgyrraedd at eich nodau dysgu'ch hun.

- Am ragor o fanylion ar sut mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn rhannu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth a sut y gallwch gael eich eithrio neu addasu pwy sy'n cael gweld eich gwybodaeth, ewch i wefan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn http://bit.ly/bmHWNp

---

3) Testun Hysbysiad Preifatrwydd Safonol y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

Sut yr Ydym yn Defnyddio'ch Data

Bwriad y datganiad hwn yw rhoi gwybodaeth i chi ar sut y bydd y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu'n casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth a'ch data personol, ac am y dewis sydd gennych o ran y defnydd a wneir o'ch data personol.

Mae’r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu’n cael ei redeg gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau. Mae’r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu’n casglu data sy’n ymwneud â dysgwyr sy’n cofrestru ar gyfer cymwysterau perthnasol ôl 14 oed, er enghraifft, TGAU, Cymwysterau AS ac A2, Diplomau, Bagloriaeth Cymru ac unedau cysylltiedig, Prentisiaethau, Tystysgrifau Mynediad i Gyflogaeth a Fframweithiau Cymwysterau a Chredydau Cymru ac unedau cysylltiedig.

Mae’r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu’n cynnig cyfleuster i storio data cyfranogiad a chyflawniad y dysgwr a gasglwyd yn uniongyrchol oddi wrth y cyrff dyfarnu perthnasol. Drwy roi’ch gwybodaeth bersonol, bydd sefydliadau perthnasol yn cael gweld eich Cofnod Dysgu Personol er mwyn defnyddio’ch gwybodaeth bersonol i asesu’ch cyflawniadau, eich dyfarniadau a chredydau ac i gynnig cyngor ac arweiniad. Fel y dysgwr byddwch yn gallu gweld yr holl ddata sy’n gysylltiedig â chi a byddwch yn gallu penderfynu pa sefydliadau a gaiff weld y data a pha ddata y cânt ei weld.

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn cynnig y gwasanaethau craidd canlynol:

- Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr sy'n dyrannu Rhif Dysgwr Unigryw (ULN) i bob dysgwr.
- Cofnod Dysgu Personol. Bydd y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn cynnig cyfleuster i chi i gael mynediad at eich data cyfranogiad a chyflawniad o ffynonellau data perthnasol drwy gyfrwng gwefan. Bydd cyfleusterau ychwanegol i ategu Fframweithiau Cymwysterau a Chredydau Cymru yn cynnwys:
    - Swyddogaeth Ar Drywydd Llwyddiant a fydd yn eich galluogi chi a sefydliadau a ganiateir i edrych ar lwybrau posibl ar gyfer addysg y dysgwr yn y dyfodol.
    - Ymholiad Cymhwyster Sengl i chi i ddeall pa unedau sydd eu hangen i grynhoi'r credyd perthnasol ar gyfer cymhwyster penodol.
    - Cyfleuster i gynorthwyo i Drosglwyddo Credydau a fydd yn galluogi credydau i gael eu trosglwyddo rhwng 2 gymhwyster gan 2 wahanol Gorff Dyrannu.

Casglu data

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn casglu data o:

- wybodaeth sy'n cael ei chasglu eisoes gan asiantaethau eraill oddi wrth ysgolion a darparwyr dysgu eraill.
- gwybodaeth a roddir gennych pan fyddwch yn cofrestru â darparwr dysgu.
- data cymhwyster, uned a Rheolau Cyfuno gan Ofqual.
- data cyfranogiad a chyflawniad a gedwir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- data cyflawniad dysgwyr a gyflenwir gan gyrff dyfarnu'n uniongyrchol i'r Cofnod Dysgu Personol i ategu Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru.

Defnydd o ddata

Bydd y Rhif Dysgwr Unigryw yn galluogi sefydliadau sector addysg a hyfforddiant, a Chyrff Dyfarnu sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual yn Lloegr ac APADGOS yng Nghymru, i rannu gwybodaeth am gyfranogiad a chyflawniad mewn dull cyson a chymeradwy, gan hybu arferion rheoli gwybodaeth da, a helpu i wella cywirdeb ac effeithlonrwydd.

Bydd hyn o fudd i chi drwy wella'r prosesau ymgeisio i Gyrff Dyfarnu, darparwyr dysgu, ymgynghorwyr dysgu a thrydydd partïon eraill.

Bydd y Cofnod Dysgu Personol yn cael ei rannu â sefydliadau sy'n ymwneud â'ch addysg a'ch hyfforddiant, gan gynnwys y sefydliadau hynny a enwir mewn Rheoliadau a wneir o dan adran 537A y Ddeddf Addysg.

Cyfyngir yn fawr ar fynediad cyrff dyfarnu at eich data cyflawniad er mwyn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau o ran cymwysterau ac i gynorthwyo'r dysgwr i hawlio a throsglwyddo credyd blaenorol.

Gallwch ddewis eithrio'ch hun rhag rhannu'ch data cyflawniad drwy ffonio'r ddesg wasanaeth neu drwy fewngofnodi i wefan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau fel y disgrifir yn yr adran isod.

Gallwch hefyd herio cywirdeb y data cyflawniad sydd yn y Cofnod Dysgu Personol drwy ffonio'r ddesg wasanaeth neu drwy ddilyn y broses herio data a ddisgrifir yn yr adran "Cywiro Data Anghywir".

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu hefyd yn eich galluogi i rannu, cymaint neu gyn lleied ag y mynnwch, o'ch data cyfranogiad a chyflawniad a gedwir yn y Cofnod Dysgu Personol â thrydydd partïon.

Mae'r holl sefydliadau sydd â mynediad at yr wybodaeth a roddir gennych wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a byddant yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'n ofynnol i'r sefydliadau hyn lofnodi cytundebau perthnasol a dogfennaeth reoli sy'n golygu bod yn rhaid iddynt reoli'ch data mewn modd cyfrifol ac i gael mynediad at wybodaeth yn unig os oes cysylltiad uniongyrchol rhyngoch chi a'r sefydliad perthnasol.

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol byth yn cael ei throsglwyddo i unrhyw sefydliadau i ddibenion gwerthu neu farchnata.

Caniatâd i rannu

Oherwydd bod y Rhif Dysgu Unigryw yn ofynnol i weinyddu gwasanaethau o fewn y sector addysg a hyfforddiant (megis dyfarnu rhai cymwysterau), ni allwch ddewis cael eich eithrio rhag derbyn Rhif Dysgu Unigryw gan y Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr.

Gallwch eithrio'ch hun rhag rhannu eich data cyfranogiad a chyflawniad drwy'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu. Ceir manylion ar sut i eithrio'ch hun rhag rhannu'ch data cyfranogiad a chyflawniad o fewn y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn at www.learningrecordsservice.org.uk neu drwy ffonio **Llinell Gymorth Cwsmeriaid y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu ar 0845 602 2589.**

Gallwch hefyd rannu gwybodaeth â sefydliadau ac unigolion eraill drwy greu gwedd wedi'i ffurfweddu o'ch data cyfranogiad a chyflawniad. Bydd y wedd hon yn eich galluogi i greu gwedd o'ch data cyfranogiad a chyflawniad a hefyd i rannu data ag unrhyw drydydd parti y mynnwch.

Un canlyniad posibl a all godi yn sgil penderfynu peidio â chaniatáu i'ch data cyfranogiad a chyflawniad sydd wedi'i gynnwys yn eich Cofnod Dysgu Personol gael ei rannu yw y bydd yn rhaid i chi o bosibl ddarparu copïau o dystysgrifau neu wybodaeth arall i gadarnhau'ch cymwysterau. Byddwch hefyd yn atal sefydliadau eraill a all gynnig cymorth i barhad eich addysg rhag gweithio â chi, rhag gweithredu ar eich rhan gan gynnwys swyddogaethau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau: Ar Drywydd Llwyddiant, ymholiadau Rheolau Cyfuno a swyddogaethau Trosglwyddo Credyd.

Cywiro data anghywir

Un o brif fanteision y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yw y gallwch wirio bod yr wybodaeth a gedwir amdanoch yn gywir a gallwch ofyn i unrhyw wallau gael eu cywiro. Os ydych yn credu bod unrhyw wybodaeth ar eich Cofnod Dysgu Personol yn anghywir yna dylech ddilyn y drefn ganlynol i herio'r data.

Y corff dyfarnu sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddata cyflawniad a roddir ar y Cofnod Dysgu Personol ganddo'n gyfoes a chywir.

Data personol sensitif

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn gwneud pob ymdrech i beidio casglu gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif (e.e. data sy'n ymwneud â tharddiad ethnig, iechyd corfforol neu feddyliol, credoau crefyddol, aelodaeth o undeb llafur neu unrhyw droseddau neu achosion cyfreithiol).

Os byddwch yn canfod bod unrhyw ddata personol sensitif wedi'i gynnwys ar ddamwain, dylech gysylltu â'r Asiantaeth drwy'r ddesg wasanaeth. Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn dilyn proses i ganfod a dileu data personol sensitif.

Dysgwyr sensitif

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn sylweddoli y bydd gan rai dysgwyr bryderon penodol ynghylch preifatrwydd sy'n golygu bod angen mesurau diogelu ychwanegol. Mae gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu Bolisi Dysgwyr Sensitif i sicrhau bod y mesurau diogelu hyn yn cael eu gweithredu.

Diogelwch

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn sylweddoli bod angen cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel ac mae ganddo Bolisi Diogelwch sy'n golygu bod mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i atal colli data, neu ddefnydd heb awdurdod o'ch gwybodaeth, yn unol â safonau'r Llywodraeth.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw'ch data?

Bwriad y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yw darparu cofnod gydol oes o ddysgu a fydd ar gael i chi ar unrhyw adeg pan fyddwch yn penderfynu cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant. Felly, gall y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu ddal i gadw'ch Rhif Dysgu Unigryw, eich Cofnod Dysgu Personol a Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru a data cysylltiedig yn ystod eich oes, gan ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Diweddaru'r polisi hwn

Mae'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn cydnabod y gall pryderon ynghylch preifatrwydd a diogelu data newid dros amser a bydd yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd. Bydd unrhyw welliannau'n cael eu cyhoeddi yma a bydd dysgwyr yn cael eu hysbysu pan fyddant yn edrych ar eu Cofnod Dysgu Personol.

Learning Records Service